Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Adroddiad i'r Cynulliad 2006/07

1. Cyflwyniad

1.1 Yn ôl Rheol Sefydlog 9.9, mae'n ofynnol i'r Pwyllgorau Pwnc gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar hynt y gwaith a wnaethant o ran cyflawni eu blaenraglenni gwaith. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2006 a 31 Mawrth 2007.

2. Yr Aelodau

2.1.Yn ystod y flwyddyn, yr aelodau oedd

Janice Gregory (Cadeirydd)	
Mick Bates	
Edwina Hart (Gweinidog)	
Mark Isherwood	
Laura Anne Jones	
Trish Law	O 07.11.06
Huw Lewis (Dirprwy Weinidog)	
Sandy Mewies	
Leanne Wood	

3. Cyfarfodydd

3.1 Yn ystod y cyfnod, cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol yn gyhoeddus ar 16 achlysur. Cynhaliwyd tri o'r cyfarfodydd hyn y tu allan i Gaerdydd, yn Nhredegar Newydd, Casnewydd a Merthyr Tudful. Cyfarfu'r Pwyllgor hefyd ac y cyd â'r Pwyllgorau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Chyfle Cyfartal i drafod Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant ar gyfer 2005-06.

4. Ymweliadau

4.1 Ymwelodd y Pwyllgor â Llwybrau Newydd ym Merthyr Tydfil a hefyd bu Aelodau'r Pwyllgor yn ymweld â mannau mewn cysylltiad â'i adolygiad o ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc yn ystod tymor yr hydref 2006. Fe ymwelodd y Cadeirydd ag Aquila Housing.

5. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

5.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor wedi'i seilio ar bortffolio'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, sy'n canolbwyntio ar raglen y llywodraeth ar gyfer adfywio cymunedau yng Nghymru, yn benodol y rheini sydd fwyaf difreintiedig. Mae'n cynnwys:

- Cymunedau yn Gyntaf
- mentrau yn erbyn tlodi

- yr economi cymdeithasol
- y sector gwirfoddol
- diogelwch cymunedol a chysylltiadau â'r heddlu a'r gwasanaeth tân,
- camddefnyddio cyffuriau ac alcohol
- cyfiawnder ieuenctid
- tai.

Rhestrir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn y Rheolau Sefydlog, ac maent wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

6. Nodau ac Amcanion

6.1 Amlinellodd y Pwyllgor ei nodau yn y Blaenraglen Waith Strategol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mehefin 2006 a mis Ebrill 2007, ac fe'i cymeradwywyd yn dilyn y cyfarfod ar 8 Mehefin 2006.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai, wrth adolygu a datblygu polisi, yn canolbwyntio ar y meysydd hynny lle y bydd yn ategu yn hytrach na dyblygu polisïau a ddatblygir gan y Gweinidog.

7. Hynt y Gwaith

7.1 Mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar ei adolygiadau polisi ac ar gyflwyniadau rheolaidd gan gyrff â diddordeb o'r sectorau gwirfoddol, cyhoeddus a chymunedol er mwyn gwella'i ddealltwriaeth o'r holl faterion sy'n rhan o'i gylch gwaith. Gan fod ganddo gylch gwaith mor eang, mae'r Pwyllgor wedi datblygu dulliau strategol o weithio sef, lle y bo'n bosibl, canolbwyntio ar un thema ar gyfer pob cyfarfod sy'n ategu'r adroddiadau rheolaidd gan y Gweinidog ar flaenoriaethau a amlinellir yn y Flaenraglen Waith Strategol.

8. Datblygu ac Adolygu Polisi (Rheol Sefydlog 9.7)

Tai ar gyfer Pobl Hŷn

8.1 Eglurodd y Gweinidog y sefyllfa ddiweddaraf i'r Pwyllgor o ran gweithredu argymhellion Adroddiad y Pwyllgor (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2004) ar 15 Chwefror 2007.

Camddefnyddio Sylweddau

8.2 Cyflwynodd y Gweinidog y sefyllfa ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar weithredu'r argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2006) ar driniaeth a'r gwasanaethau triniaeth ar 18 Ionawr 2007.

8.3 Cytunodd y Pwyllgor i adael ail gam yr adolygiad o gamddefnyddio sylweddau, yn benodol edrych ar sut i'w atal, fel rhywbeth ar gyfer y papur i'w gyflwyno i'r trydydd Cynulliad yn ystod ei gyfarfod ar 19 Hydref 2006.

Ailstrwythuro'r Heddlu

Yn ystod mis Chwefror 2006, gofynnodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i'r Pwyllgor gynnal adolygiad arall o'r broses o ailstrwythuro'r heddlu ac i edrych yn benodol ar strwythurau democrataidd ar gyfer y dyfodol. Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar 27 Mehefin 2006.

Digartrefedd Ymhlith Pobl Ifanc

8.4 Yn ystod hydref 2006, cytunodd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wneud adolygiad o ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc. Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar 30 Ionawr 2007 a chafodd ei lansio ar 7 Chwefror 2007.

Yr oedd yr Adolygiad yn ystyried y materion ynglŷn â digartrefedd ymhlith pobl ifanc yng Nghymru, yn benodol:

- Y gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc digartref gan awdurdodau lleol a'r sector wirfoddol, yn cynnwys dynodi arferion da yn y maes;
- Y rhan mae awdurdodau lleol yn ei chwarae wrth gymhwyso deddfwriaeth berthnasol i faterion yn ymwneud â digartrefedd ymhlith pobl ifanc, yn cynnwys dynodi arferion da yn y maes;

Bu trafodaeth ar yr Adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Chwefror 2007 a bu i'r Gweinidog ymateb ar 22 Mawrth 2007.

Materion eraill yn ymwneud â datblygu ac adolygu polisi

8.5 Yn ogystal â'i adolygiadau polisi ei hun, mae'r Pwyllgor wedi cyfrannu at brif ddatblygiadau polisi sy'n cael eu rhoi ar waith gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. O'r cychwyn, mae'r Pwyllgor wedi nodi mai'r elfen allweddol yn agenda gyfan Cyfiawnder Cymdeithasol yw tai. Mae wedi blaenoriaethu'r materion hynny sy'n ymwneud â thai yn Strategaeth Tai Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â digartrefedd, y stoc tai sy'n heneiddio, effeithlonrwydd ynni, strategaethau tai lleol a phroblemau arbennig ardaloedd gwledig. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn goruchwylio CAFCASS yn dilyn y trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Ebrill 2005.

8.6 Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y rhan y mae menter Cymunedau yn Gyntaf yn ei chwarae wrth geisio adfer y sefyllfa drwy helpu i adfywio'r cymunedau tlotaf yng Nghymru. Mae'n cael adroddiadau rheolaidd ar hynt y gwaith.

8.8 Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan nifer o gyrff gwahanol y mae eu gwaith yn berthnasol i waith y Pwyllgor. Ymhlith y rhain mae Safonau Masnach Caerdydd, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu, Cadw Cymru'n Daclus, Comisiwn y Gwasanaethau Cyfreithiol, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Swyddog Cyswllt yr Heddlu a Stonewall Cymru.

8.9 Fel rhan o'r adolygiadau polisi a wnaethpwyd gan y Pwyllgor, derbyniwyd cyflwyniadau gan y sefydliadau canlynol:

- **Camddefnyddio Sylweddau** Rheolwr Rhaglen Cyswllt Ysgolion Heddlu Cymru Gyfan, Tîm Alcohol a Chyffuriau Caerdydd, Dangerpoint, Gwasanaethau Ieuenctid a Chymuned Sir y Fflint, Prosiect HYPE Merthyr Tudful, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yng Nghymru a Chanolfan Alcohol a Chyffuriau Powys.
- **Ailstrwythuro'r Heddlu** Prif Gwnstabliaid Cymru, Cyngor Sir Ddinbych, Awdurdodau'r Heddlu yng Nghymru, Rhanbarth Cymru o Ffederasiwn yr Heddlu, Cymdeithas Uwch Arolygwyr yr Heddlu a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- **Digartrefedd Ymhlith Pobl Ifanc** Barnardos Cymru, Cymorth Cymru, Dr Kay Saunders, Gisda, Cymdeithas Genedlaethol Gofal ac Ailsefydlu Troseddwyr, Cymdeithas Gofal Sir Benfro, Shelter Cymru, Wallich Clifford a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Adroddiad y Gweinidog

8.9 Drwy edrych ar ei hadroddiadau cyson mae'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog ym mhob cyfarfod. Yn dilyn ailstrwythuro amserlen y Pwyllgor o fis Ionawr 2006, mae'r Gweinidog yn mynychu pob yn ail gyfarfod.

9. Adolygu'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.7(iii))

9.1 Dim ond un Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor, sef y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau. Fel y mae'r teitl yn ei awgrymu, panel cynghori yw hwn yn unig; nid oes ganddo gyfrifoldeb ariannol ac nid yw'r Pwyllgor wedi craffu ar ei waith.

8.10 Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd y Pwyllgor ymatebion ffurfiol i ddau ymgynghoriad:

- Cyfrifiad 2011
- Rhwydwaith Swyddfa'r Post

10. Craffu ar Ddeddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8(i)).

Is-ddeddfwriaeth

10.1 Ym mis Mehefin 2003, cytunodd y Pwyllgor ar brotocol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth. Cafodd y Pwyllgor amserlen fanwl o'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig sydd ym mhortffolio'r Gweinidog ym mhob cyfarfod. Yn unol â'r weithdrefn y cytunwyd arni, ystyriwyd yr eitemau canlynol gan y Pwyllgor.

- Rheoliadau Drafft ar y Pecynnau Gwybodaeth am Eiddo
- Cyfarwyddyd Didyniadau Cymhorthdal Ad-dalu Rhent Drafft
- Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai Drafft ac Eitem 8 Penderfyniadau ar gyfer 2007/08
- Gorchymyn Gwaasnaethau Tân ac Achub (Codi Tâl) (Cymru) 2006

Deddfwriaeth Ewropeaidd

10.2. Ar ôl i Banel y Cadeiryddion gymeradwyo cynigion y Pwyllgor Materion Allanol ac Ewropeaidd ar gyfer system o gael pwyllgorau pwnc i graffu ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd mewn ffordd fwy rhagweithiol, mae papurau wedi'u paratoi sy'n rhoi manylion yr holl ddogfennau perthnasol yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol ac adfywio a osodwyd gerbron Senedd Ewrop. Rhoddir y cyfle i'r Aelodau nodi'r eitemau i graffu arnynt yn y dyfodol. Hyd yma, nid oes unrhyw eitemau wedi'u nodi.

10.3 Yn dilyn cyhoeddi Rhaglen Waith Flynyddol y Comisiwn ym mis Hydref 2006, nododd y Pwyllgor y Cymryd Stoc Realiti Cymdeithasol, y Papur Gwyrdd ar Sefydlu Ail Gam y System Lloches Ewropeaidd Gyffredin, y Cynnig ar gyfer Penderfyniad gan Senedd Ewrop a'r Cyngor i ddynodi 2010 fel Blwyddyn Ewropeaidd Trechu Tlodi ac Allgau Cymdeithasol. Hefyd cytunodd y Pwyllgor i dderbyn adroddiadau cynnydd ar y meysydd blaenoriaeth ers 2006 sef Hawliau'r Plentyn, Polisi Cyffuriau, Troseddau sy'n gysylltiedig ag Alcohol a'r Gwasanaethau Post.

Deddfwriaeth Sylfaenol
10.4 Yn sgil Araith y Frenhines, nid oedd unrhyw eitem i'w chyfeirio ar gyfer ei hystyried gan y Pwyllgor

11. Penodiadau (Rheol Sefydlog 9.8)

11.1 Janice Gregory a Mark Isherwood oedd enwebeion y Pwyllgor ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Roedd y penodiadau a wnaed yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2006 tan 31 Mawrth 2007, lle yr ymgynghorwyd ag enwebeion y pwyllgor pwnc, fel a ganlyn:

- Penodi Aelodau i'r Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau (13.10.06)
- Penodi Cadeirydd Pwyllgor Cynghori CAFCASS Cymru (24.10.06 a 27.02.07)
- Recriwtio 6 aelod proffesiynol i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl (31.10.06)
- Penodi Cadeirydd Pwyllgor Cynghori CAFCASS Cymru (18.01.07)

12. Cyllideb (Rheol Sefydlog 9.8)

12.1 Ystyriodd y Pwyllgor gyllideb arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2006-2007. Ceir llythyr y Cadeirydd, dyddiedig 10 Gorffennaf 2006 yn nodi argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad 2.

13. Materion Trawsbynciol/Gweithio ar y Cyd

13.1 Ar 8 Mawrth 2007, roedd y Comisiynwyr Plant Cynorthwyol yn bresennol mewn cyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, y Pwyllgor Iechyd a

Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal, i drafod Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant ar gyfer 2005-06.

13.2 Ar 19 Hydref 2006, mynychodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoedus eitem ar y cyd ar Gymunedau'n Gyntaf.

14. Y Cynlluniau Statudol

14.1 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried cynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol o ran cysylltiadau â'r sector gwirfoddol, ac o ran y cynllun datblygu cynaliadwy yn ystod ei waith. Yn yr un modd, mae wedi ystyried gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol. Derbyniodd y Pwyllgor bapur ar 18 Ionawr 2007 ar sut yr oedd y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn bodloni gofynion Cydraddoldeb y Cynulliad.

14.2 Caiff materion sy'n ymwneud â Chydraddoldeb eu prif ffrydio i waith arferol y Pwyllgor, a fu'n craffu ar gyfraniad yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio at Seithfed Adroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gydraddoldebau.

14.3 O ran datblygu cynaliadwy, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn ei gyfarfod ar 15 Chwefror 2007 ar sut y mae'r portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn prif ffrydio datblygu cynaliadwy.

15.Y Rhaglen ar gyfer y Dyfodol

15.1 Bydd y Pwyllgor yn gadael papur i'w drosglwyddo i'r Trydydd Cynulliad gyda'i argymhellion ar gyfer y meysydd blaenoriaeth sydd i'w dilyn gan bwyllgor dilynol.

Janice Gregory
Cadeirydd

Atodiad 1

Cyfrifoldebau'r Pwyllgorau Pwnc

Mae Rheol Sefydlog 9.7 a 9.8 yn rhestru cyfrifoldebau'r Pwyllgorau Pwnc.

Cyfrifoldebau

9.7 Rhaid i bob Pwyllgor Pwnc:

(i) gyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Gweinidog perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt.

(ii) cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a

(iii) cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

9.8 O fewn y meysydd perthnasol, rhaid i bob Pwyllgor Pwnc hefyd:

(i) gynghori ar ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaethol a deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 24;

(ii) rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 21;

(iii) cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 23 (cwynion);

(iv) cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22; a

(v) ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd

Atodiad 2

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog yn cyfleu argymhellion y Pwyllgor o ran cyllideb arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2006-07 (dyddiedig 25.05.05)

Cylch Cynllunio Cyllideb 2006

Ysgrifennaf i gofnodi'n ffurfiol farn y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar eich papur ar gylch cynllunio cyllideb 2006 a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2006.

I gychwyn hoffwn nodi gwerthfawrogiad y Pwyllgor o'r papur, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod y Gweinidog Cyllid wedi gwneud yn glir mai cyfyngedig yw'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2007-08 a 2008-09 a'i bod dim ond wedi gwahodd cynigion i ateb unrhyw bwysau cyfalaf a rhaglen anochel.

Ynglŷn â'r *pwysau anochel* – Rhaglen (refeniw), cytunodd y Pwyllgor fod yn rhaid i'r meysydd sy'n cael sylw yn eich papur barhau i gael eu hariannu.

Yr oedd y Pwyllgor yn unfrydol yn eu cytundeb fod yn rhaid i dai fod yn brif flaenoriaeth y portffolio. Cyfeiriodd yr Aelodau at bwysigrwydd gwario ar dai cymdeithasol, y Cynllun Cymorth Prynu a thai â chymorth.

Cytunodd yr Aelodau hefyd y byddai unrhyw flaenoriaethau ychwanegol o ran y gyllideb yn arwain at fod y gyllideb yn cael ei rhannu'n rhy gynnil ar draws gormod o feysydd a allai arwain at arian annigonol ar gyfer rhai neu'r cyfan o'r meysydd blaenoriaeth.

Ynglŷn â'r *pwysau anochel* – Cyfalaf. Teimlai'r Pwyllgor fod y meysydd y tynnwyd sylw atynt yn adlewyrchu prif flaenoriaethau'r portffolio.

Gofynnodd yr Aelodau fod yr arbedion da a gyflawnwyd yn y gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a ddeilliodd o wariant ar dai gofal ychwanegol fel yr argymhellwyd yn adroddiad Wanless, yn cael eu cydnabod.

Gobeithio y bydd barn y Pwyllgor yn ddefnyddiol ar gyfer eich trafodaethau gyda'ch cydweithwyr yn y Cabinet ar y gyllideb.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn i holl Aelodau'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.